COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R CYNGOR A GYNHALIWYD SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB AR DYDD MERCHER, 15 MAWRTH 2023 16:00

Presennol

Y Cynghorydd M Jones – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | H T Bennett | A R Berrow | F D Bletsoe |
| S J Bletsoe | JPD Blundell | E L P Caparros | N Clarke |
| RJ Collins | HJ David | C Davies | C L C Davies |
| P Davies | S Easterbrook | M J Evans | N Farr |
| P Ford | J Gebbie | W R Goode | RM Granville |
| H Griffiths | S J Griffiths | D T Harrison | M L Hughes |
| D M Hughes | RM James | M R John | MJ Kearn |
| W J Kendall | M Lewis | J Llewellyn-Hopkins | RL Penhale-Thomas |
| J E Pratt | R J Smith | JC Spanswick | T Thomas |
| JH Tildesley MBE | G Walter | A Wathan | A Williams |
| HM Williams | I Williams | MJ Williams | R Williams |
| E D Winstanley | T Wood | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

P W Jenkins, E Richards a/ac I M Spiller

Datganiadau Buddiant

Datganodd yr holl Swyddogion a oedd yn bresennol ac eithrio'r Rheolwr Grŵp – Adnoddau Dynol a Swyddogion Datblygu Sefydliadol a Gwasanaethau Democrataidd, fuddiant sy'n rhagfarnu yn eitem 6 ar yr Agenda, ac aethant allan o'r cyfarfod tra'r oedd yr eitem hon yn cael ei hystyried.

Gwnaed y datganiadau o fuddiant personol ychwanegol a ganlyn gan aelodau:-

Cynghorydd S Bletsoe – Eitem 11 ar yr Agenda. Cwestiwn gan y Cynghorydd S Easterbrook, fel preswylydd stad o dai sy'n codi ffi rheoli.

Cynghorydd N Farr – Eitem 12 ar yr Agenda fel aelod o undeb llafur.

Cynghorydd JC Spanswick – Eitemau 6. ac 8 ar yr agenda gan fod aelod o'r teulu yn gweithio i CBS Pen-y-bont ar Ogwr. Eitem 12 ar yr agenda fel aelod o undeb llafur.

Cynghorydd M Kearn – Eitemau ar yr Agenda. 6 ac 8. Gan fod aelod o'r teulu yn gweithio i CBS Pen-y-bont ar Ogwr ac eitem 12 ar yr Agenda fel aelod o undeb llafur.

Cynghorydd P Davies - Eitemau 6. ac 8 ar yr agenda gan fod aelod o'r teulu yn gweithio i CBS Pen-y-bont ar Ogwr. Eitem 12 ar yr agenda fel aelod o undeb llafur.

Cynghorydd E Winstanley – Eitem 11 ar yr Agenda. Cwestiwn gan y Cynghorydd S Easterbrook fel perchennog dau eiddo sy'n mynd i ffioedd rheoli. Eitem 11 ar yr agenda. Cwestiwn gan y Cynghorydd F Bletsoe fel gweithiwr i Awen sy'n rheoli'r lleoliadau a ddyfynnwyd yn y cwestiwn ar ran CBSP. Eitem 12 ar yr agenda fel aelod o undeb llafur.

Cynghorydd F Bletsoe - Eitem 11 ar yr Agenda. Cwestiwn gan y Cynghorydd S Easterbrook, fel preswylydd stad o dai sy’n codi ffi rheoli.

Cynghorydd C Davies - Eitemau agenda 6. ac 8 ar yr agenda gan fod aelod o'r teulu yn gweithio i CBS Pen-y-bont ar Ogwr. Eitem 12 ar yr agenda fel aelod o undeb llafur.

Cynghorydd T Thomas - Eitem 11 ar yr Agenda. Cwestiwn gan y Cynghorydd S Easterbrook, fel preswylydd stad o dai sy’n codi ffi rheoli.

Cynghorydd JP Blundell - Eitem 12 ar yr Agenda fel aelod o undeb llafur.

Cynghorydd M Lewis - Eitemau 6. a 9. ar yr Agenda fel aelod o undeb llafur.

Cynghorydd J Gebbie - Eitem 12 ar yr Agenda fel aelod o undeb llafur.

Cynghorydd RM James – Eitemau 6. ac 8 ar yr Agenda gan fod aelod o'r teulu yn gweithio i CBS Pen-y-bont ar Ogwr.

Cynghorydd P Ford – Eitem Agenda 12. fel aelod o undeb llafur

Cynghorydd RC Collins – Eitem 12 ar yr Agenda fel aelod o undeb llafur

Cynghorydd HJ David – Eitem 12 ar yr Agenda fel aelod o undeb llafur

Cynghorydd H Bennett – Eitem 12 ar yr Agenda fel aelod o undeb llafur

Cynghorydd A Berrow - Eitem Agenda 6. ac 8. gan fod aelod o'r teulu yn gweithio i CBSP.

Cynghorydd H Williams - Eitem 12 ar yr Agenda fel aelod o undeb llafur

Cynghorydd R Goode - Eitem 12 ar yr Agenda fel aelod o undeb llafur

Cynghorydd G Walter - Eitemau Agenda 6, 8 a 12. fel aelod o undeb llafur

Cynghorydd J Pratt - Eitem 12 ar yr Agenda fel aelod o undeb llafur

Cynghorydd RM Granville - Eitem 12 ar yr agenda fel aelod o undeb llafur

Cynghorydd M Hughes - Eitem 12 ar yr Agenda fel aelod o undeb llafur

Cynghorydd H Griffiths – Eitem Agenda 6. gan fod aelod o'r teulu yn gweithio yn CBSP

Cynghorydd R Williams - Eitem 12 ar yr Agenda fel aelod o undeb llafur

Cynghorydd M Jones - Eitem 12 ar yr Agenda fel aelod o undeb llafur

Swyddogion:

Beeke (Rheolwr Grŵp – Adnoddau Dynol a Datblygu Trefniadaethol), MA Galvin (Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau), Harvey (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd), R Keepins (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd), C Lord (Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid), Marchant (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles), Nightingale (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau), M Pitman (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau), M Shephard (Prif Weithredwr) a/ac K Watson (Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio)

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Cymeradwyo'r Cofnodion |
| Y penderfyniad a wnaed | I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion cyfarfod y 18/01/2023 a 08/02/2023 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 15 Mawrth 2023 |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Datganiad Polisi Tâl - 2023/2024 |
| Y penderfyniad a wnaed | Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl2023/2024 ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 15 Mawrth 2023 |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Trafodion Partïon Cysylltiedig 2022-23 a Datganiad Cyfrifon |
| Y penderfyniad a wnaed | Bod y Cyngor yn nodi’r gofyniad i Aelodau: • ddatgan yn ffurfiol unrhyw drafodion parti cysylltiedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23; • cwblhau a dyddio’r ffurflen heb fod yn gynharach na 31 Mawrth 2023; • cyflwyno’r un ffurflen erbyn dydd Mercher 12 Ebrill 2023 |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 15 Mawrth 2023 |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Polisïau Pensiwn |
| Y penderfyniad a wnaed | Bod y Cyngor yn cymeradwyo: • y Polisi Disgresiynau (Atodiad 1 i'r adroddiad) • y Polisi Ymddeoliad Cynnar, Ymddeol Salwch a Diswyddo (yn Atodiad 2) • y Polisi Ymddeoliad Hyblyg (Atodiad 3) |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 15 Mawrth 2023 |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2023/24 |
| Y penderfyniad a wnaed | Bod y Cyngor yn nodi'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer2023/24 ac wedi'i gymeradwyo: (1) Mabwysiadu Penderfyniadau perthnasol y Panel a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol (ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad); (2) Y swyddi hynny (a ddangosir yn y Rhestr Diwygiedig o Gydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau yn Atodlen 1 yn Atodiad 2) a fydd yn derbyn cyflog uwch swyddog / dinesig; (3) Rhestr Gydnabyddiaeth ddiwygiedig yr Aelodau (Atodiad 2) ac iddi ddod i rym o 1 Ebrill 2023; (4) Bod Atodlen Cydnabyddiaeth Ariannol yr Aelodau yn cael ei diweddaru ag unrhyw newidiadau i swyddi uwch swyddogion / cyflog dinesig a wnaed wedyn gan y Cyngor yn ystod blwyddyn ddinesig 2023/24. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 15 Mawrth 2023 |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Adroddiad Gwybodaeth i'w Nodi |
| Y penderfyniad a wnaed | Bod y Cyngor yn cydnabod cyhoeddi'r ddogfen a restrir yn yr adroddiad. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 15 Mawrth 2023 |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Rhybudd o Gynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd Jane Gebbie ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Alex Williams |
| Y penderfyniad a wnaed | “CYNNIG AR GYFLOG LLYWODRAETH LEOL I’R CYNGOR: CODI CYFLOG PRIODOL WEDI’I ARIANNU’N LLAWN I WEITHWYR Y CYNGOR A GWEITHWYR YSGOLION Mae’r cyngor hwn yn nodi: • Mae llywodraeth leol wedi dioddef toriadau cyllid llywodraeth ganolog o fwy na 50% ers 2010. Rhwng 2010 a 2020, collodd cynghorau 60c o bob £1 maen nhw wedi'i dderbyn gan lywodraeth ganolog San Steffan. • Mae ymchwil newydd gan UNSAIN wedi dangos bod cynghorau ar draws Cymru, Lloegr a'r Alban yn wynebu diffyg cyllid cyfunol o £3bn erbyn y flwyddyn ariannol 2023/24 a bwlch ariannu cronnol o £5bn erbyn 2024/25. • Ar lefel leol, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi gwneud cyfanswm o bron i £73m o arbedion ers 2010 / 2011. Mae hyn yn cynrychioli bron i 23% o gyllideb refeniw net cyfredol y Cyngor • Arweiniodd cynghorau’r ffordd mewn ymdrechion yn erbyn pandemig Covid-19, gan ddarparu amrediad enfawr o wasanaethau a chymorth i’n cymunedau. Mae llywodraeth leol wedi dangos yn fwy nac erioed pa mor anhepgor ydyw. Ond mae Covid wedi arwain at gynnydd aruthrol mewn gwariant a cholli incwm, ac wrth inni ddod allan o’r pandemig, mae angen llawer rhagor o gymorth ar awdurdodau lleol ac ysgolion gan San Steffan. Ni wnaeth cyhoeddiadau ariannu diweddar gan Lywodraeth San Steffan yn ymwneud ag ysgolion ddim i helpu. • Cadwodd gweithwyr cyngor ac ysgolion ein cymunedau’n ddiogel drwy’r pandemig, gan roi eu hunain mewn perygl sylweddol yn aml wrth iddynt weithio i ddiogelu iechyd y cyhoedd, darparu tai o safon, sicrhau bod ein plant yn parhau i gael eu haddysgu, a gofalu am bobl hŷn a bregus. Ers 2010, mae gweithlu llywodraeth leol wedi dioddef blynyddoedd o gyfyngiadau cyflog â mwyafrif y pwyntiau cyflog yn colli o leiaf 25 y cant o’u gwerth ers hynny. 2009/10. Mae staff bellach yn wynebu’r argyfwng costau byw gwaethaf mewn cenhedlaeth, a chwyddiant yn taro 10% a llawer yn gorfod gwneud dewisiadau amhosib rhwng bwyd, gwres, a hanfodion eraill. Mae hon yn sefyllfa ofnadwy i unrhyw un gael ei hun ynddi. Page 45 CYNGOR - DYDD MERCHER, 15 MAWRTH 2023 • Ar yr un pryd, mae gweithwyr wedi profi llwythi gwaith cynyddol ac ansicrwydd swyddi parhaus. Ledled y DU, mae 900,000 o swyddi wedi’u colli mewn llywodraeth leol ers mis Mehefin 2010 – gostyngiad o fwy na 30 y cant. Gellir dadlau bod llywodraeth leol wedi’i tharo gan golledion swyddi mwy difrifol nac unrhyw ran arall o’r sector cyhoeddus. • Mae effaith anghymesur wedi bod ar fenywod, gyda menywod yn cyfrif am fwy na thri chwarter y gweithlu llywodraeth leol. • Mae ymchwil diweddar yn dangos pe bai Llywodraeth San Steffan yn ariannu hawliad cyflog 2023 yr undebau’n llawn, byddai tua hanner yr arian yn cael ei adennill diolch i refeniw treth uwch, llai o wariant ar fudd  daliadau a chredydau treth, a rhagor o wariant gan ddefnyddwyr yn yr economi leol. Mae’r cyngor hwn yn credu: 1. Mae ein gweithwyr yn archarwyr gwasanaeth cyhoeddus. Maent yn cadw |

| | |
|---|---|
| | ein cymunedau yn lân ac yn ddiogel, yn gofalu am y rhai mewn angen ac yn cadw ein trefi a'n dinasoedd i redeg. 2. Heb broffesiynoldeb ac ymroddiad ein staff, ni fyddai modd darparu gwasanaethau'r cyngor y mae ein trigolion yn dibynnu arnynt. 3. Mae gweithwyr llywodraeth leol yn haeddu codiad cyflog cywir mewn termau real. Mae angen i Lywodraeth San Steffan gymryd cyfrifoldeb ac ariannu'r cynnydd hwn yn llawn; ni ddylai roi'r baich ar awdurdodau lleol y mae eu cyllid yn dal i ysgwyddo'r pwysau ar wasanaethau yn sgil pandemig Covid 19. Mae'r cyngor hwn yn penderfynu: A. Cefnogi'r hawliad cyflog a gyflwynwyd gan UNSAIN, GMB ac Unite ar ran gweithwyr y cyngor ac ysgolion, am gynnydd mewn RPI + 2% B. Galw ar Gymdeithas Llywodraeth Leol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gyflwyno sylwadau brys i lywodraeth ganolog i ariannu hawliad cyflog yr NJC. C. Ysgrifennu at y Canghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol i alw am godiad cyflog i weithwyr llywodraeth leol i gael ei ariannu gan arian newydd gan lywodraeth ganolog. D. Cyfarfod â chynrychiolwyr undebau lleol yr NJC i gyfleu cefnogaeth i'r hawliad cyflog ac ystyried ffyrdd ymarferol y gall y cyngor gefnogi'r ymgyrch. E. Annog holl weithwyr llywodraeth leol i ymuno ag undeb. Roedd y Cyngor yn unfrydol o blaid y Rhybudd o Gynnig hwn, yn amodol ar ychwanegu pwynt B yn union uchod (a ddangosir mewn print trwm), a gytunwyd yn unfrydol hefyd. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 15 Mawrth 2023 |